



Cofnodion cyfarfod Gweithgor y Llyfrgell
a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2024 yn Hwb Rhuddlan

Yn bresennol:

Y Cyngorydd Gareth Rowlands (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Val Simmons (Maer)
Y Cyngorydd Mike Kermode
Mathew Baker (Llyfrgelloedd CSDd)
Richard Polden (Cymdeithas Hanes Lleol Rhuddlan)
Steve Wilson - Clerc

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorydd Mike Elgin

2. Datgan Buddiant

Dim

3. Trafodaethau

Fe wnaeth y Cyngorydd Gareth Rowlands groesawu pawb i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am ddod.

Roedd Mathew a Richard wedi adolygu'r rhestr o ffrydiau ariannu cadarnhaol. Roedd y Cyngorydd Mike Kermode wedi dod o hyd i ffynhonnell gan Lywodraeth Cymru ac mae'n aros am ymateb. Rhaid cyflwyno'r datganiad o ddiddordeb cyntaf erbyn 5 Awst.

Fe wnaeth y Cyngorydd Val Simmons rannu canfyddiadau ei hymweliad â'r amgueddfa yn y Rhyl, sydd yn y llyfrgell.

Dywedodd Mathew wrth y grŵp fod llyfrgelloedd eraill CSDd yn llawer mwy prysur gan fod nifer y cwsmeriaid heb ostwng, felly roedd mwy o bobl yn defnyddio'r llyfrgelloedd yn ystod yr oriau llai.

Pwysigrwydd cymorth technegol CSDd ar gyfer y gwaith cychwynnol o gynllunio a dylunio'r amgueddfa. Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Graham Boase a Tony Ward i ofyn am gymorth.
Penderfynwyd. Bydd y Clerc yn gofyn i adran Gynllunio CSDd ddod ar ymweliad safle hefyd i gasglu eu syniadau cychwynnol.

Trafodwyd dull dwy elfen ar gyfer y grŵp, un ar gyfer arian refeniw ar gyfer y llyfrgell a'r ail ar gyfer yr amgueddfa. Bydd yr elfennau hyn yn weithredol ar yr un pryd.

Trafodwyd pwysigrwydd cyflwyno manyleb o ofynion ar gyfer yr amgueddfa a chytunwyd i neilltuo'r cyfarfod nesaf ar gyfer hyn. Awgrymodd y Cynghorydd Gareth Rowlands y dylid gwahodd swyddog amgueddfeydd CSDd i'r cyfarfod. **Penderfynwyd.**

Ar fater arian refeniw, trafodwyd yr angen i lunio llyfryn neu brosbectws, a chytunwyd y dylai hyn gynnwys manylion am yr hyn mae'r llyfrgell yn ei wneud, ar gyfer pwy, beth yw'r gost. Roedd adborth gan ddefnyddwyr y llyfrgell yn bwysig a chytunodd Mathew i gasglu'r wybodaeth hon. **Penderfynwyd.**

Cytunwyd bod yr elfen bersonol yn bwysig wrth lunio strategaeth ar gyfer ffynonellau ariannu posibl.

Trafodwyd rheolau ariannol CSDd ynghylch cario cyllidebau drosodd os bydd unrhyw gyllid posibl.

Trafodwyd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Tref Rhuddlan a CSDd mewn perthynas â'r llyfrgell a chytunwyd i gyfarfod Mathew er mwyn ei aralleirio fel bod modd ei gymeradwyo a'i lofnodi.

Dyddiad y cyfarfod nesaf, dydd Mercher, 11 Gorffennaf am 9am yn Llyfrgell Rhuddlan.

LlofnodwydY Cynghorydd Gareth Rowlands